William Powell
Cadeirydd y Pwyllgor  Deisebau
Tý Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Plaid
PLAID CYMRU

02/09/2013

Annwyl William,

Diolch i chi am eich llythyr a'r wybodaeth ychwanegol parthed y ddeiseb yn galw am ddarparu pecyn gwybodaeth i bawb yng Nghymru ar sut i sefyll fel ymgeisydd etholiadol.

Credaf fod y bwriad tu-ôl i'r ddeiseb yn un sydd werth ei chefnogi, h.y sut mae annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, fel ymgeiswyr i'r pleidiau gwleidyddol neu fel ymgeiswyr annibynnol.

Er bod rhinwedd i'r syniad o anfon pecyn i bob tŷ yng Nghymru, credaf fod angen ystyriaeth bellach o'r rhwystrau sydd yn bodoli ac yn atal mwy o bobl rhag cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd a rhoi eu henwau ger bron fel ymgeiswyr, yn enwedig ymysg grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.

Mae angen dod i well ddealltwriaeth o'r effaith mae'r rhwystrau hyn yn eu cael ar hyn o bryd, e.e. mae pwysau ariannol ac/neu amser sy'n wynebu ymgeiswyr posib sydd yn mynd ati o ddifrif i gystadlu etholiad. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ond mae angen ystyried effaith ffactorau megis blaendal ymgeisydd, costau petrol, costau gofal plant, hyblygrwydd cyflogwr presennol, dealltwriaeth o'r gyfraith etholiadol. Gall yr rhain fod yn rhwystrau sylweddol wrth sicrhau bod trawsdoriad eang o bobl yn sefyll mewn etholiadau, heb sôn am y ffaith nad ydy'r system etholiadol bresennol yn un deg.

Yn sicr, rwy'n credu y byddai'n werth ystyried cynhyrchu taflen i bob person ifanc yng Nghymru cyn iddynt droi'n ddeunaw er mwyn esbonio'r system ddemocrataidd iddynt a sut maen nhw'n gallu cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Rydym wedi ymdrechu yn ddiweddar i hysbysebu i'r cyhoedd bod cyfleoedd i sefyll fel cynrychiolydd Plaid Cymru. Hefyd, rydym wedi ymdrechu yn ddiweddar i ddenu pobl i ddangos diddordeb mewn sefyll i'r Cynulliad Cenedlaethol a San Steffan drwy ddefnyddio cyfryngau megis Twitter a Facebook. Mae hyn wedi cael effaith cadarnhaol ar y nifer o bobl sydd wedi dangos diddordeb mewn sefyll fel ymgeiswyr.

Fe fyddwn yn hapus i gydweithio gyda chorff i drafod hyn ymhellach, fe dybiwn mai'r Comisiwn Etholiadol yw'r corff priodol yn ogystal â Chomisiwn y Cynulliad.

Rhuanedd Richards,

Prif Weithredwr
Plaid Cymru

**Plaid Cymru**
**Tŷ Gwynfor**
**Marine Chambers**
**Cwrt Anson Court**
**Glanfa'r Iwerydd / Atlantic Wharf**
**Caerdydd / Cardiff**
**CF10 4AL**

**02920 472272**
**post@plaidcymru.org**
**www.plaidcymru.org**